ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion (CBGY) Bwletin #4 – Mai 2019

Mae'r bwletin hwn a gynhyrchwyd gan Lywodraeth cymru yn rhoi diweddariad ar y datblygiadau diweddaraf o ran CBGY.

10 Mai 2019
Fersiwn: CBGY/04/2019

Dyddiadau allweddol:

Cam 1:
Dyddiad cyfrifiad: Dydd Mawrth 5 Tachwedd 2019
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno data: Dydd Mercher 18 Rhagfyr
Data i'w gasglu: cyflwyno data 'cipolwg'

Cam 2:
Tachwedd 2020 (dyddiad cyfrifiad i'w gadarnhau)
Data i'w gasglu: cyfrifiad llawn yn cynnwys data Cam 1 a data o'r gorffennol

Sbotolau ar:

Ym mhob bwletin byddwn yn edrych ar elfennau o'r cyfrifiad mewn mwy o fanylder.

Y broses cyflwyno data a chyfrifoldebau

Yn ddiweddar mae cwestiynau wedi'u derbyn ynglyn â chyfrifoldebau cynrychiolwyr AD, cyflogres a systemau rheoli gwybodaeth mewn awdurdodau lleol i ddychwelyd a dilysu data'r CBGY. Yma rydym edrych ar y broses ar gyfer ddau rhan y CBGY a'r groes ddilysu ar y data, fel gall awdurdodau lleol rheoli prosesau dilysu eu hun.

2 rhan y CBGY:

Mae'r CBGY yn cynnwys 2 rhan:

- y rhan **ysgol**, bydd yn cael ei ddychwelyd gan ysgolion, a'r
- rhan **cyflogau, AD ac absenoldeb**, bydd fel araf yn cael ei gyflwyno gan awdurdodau lleol ac yn cynnwys gwybodaeth am staff ym mhob ysgol yn yr awdurdod lleol (gweler y dudalen nesaf am fanylion am ddychwelyd data gan ysgolion sydd **wedi'u heithrio** o gytundebau lefel gwasanaeth AD a/neu gyflogres gyda'u hawdurdod lleol).

Y broses cyflwyno data a chyfrifoldebau

1) Ar ôl lanlwytho'r gwybodaeth i DEWi, mae nifer o ddilysiadau yn cael eu perfformio bydd yn creu ymholiadau a/neu wallau ar ddata nad sy'n gymwys a bydd angen eu gwirio. Ar gyfer y rhan **ysgol**, bydd swyddogion systemau rheoli gwybodaeth (neu gywerth) yr awdurdod lleol yn gyfrifol am adolygu'r ymholiadau a gwallau.

Cyswllt

Ysgolion:
Os oes gan ysgolion unrhyw gwestiynau am CBGY, dylent gysylltu â swyddog cyswllt System Rheoli Gwybodaeth eu hawdurdod lleol gyntaf.

Awdurdodau Lleol:
Ar gyfer cwestiynau gan awdurdodau lleol am y bwletin hwn neu am CBGY yn gyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â ni yn:
Tîm System Rheoli Gwybodaeth
Ffôn: 03000 625014
IMS@llyw.cymru

Tîm ystadegau gweithlu ysgolion
Ffôn: 03000 625105
Ffôn (Cymraeg): 03000 255968
CBGY.SWAC@llyw.cymru

In this bulletin:

- Dyddiadau Allweddol
- Sbotolau ar: Proses cyflwyno data a cyfrifoldebau
- Adnoddau a Datblygiadau
- Digwyddiadau Ymgysylltu

Bydd staff AD a chyflogresi'r awdurdod lleol yn gyfrifol am adolygu unrhyw ymholiadau a gwallau i wneud â'r data **cyflogau, AD ac absenoldeb.** Mae'n bosib bydd angen i staff AD wirio unrhyw ymholiadau a gwallau sy'n ymwneud â rhifau Yswiriant Cenedlaethol yn y data **ysgol**.

2) Unwaith bydd unrhyw ddata newydd yn cael eu lanlwytho, bydd DEWi yn rhedeg dilysiadau lefel DEWi rhwng y data **ysgol** a **chyflogau, AD ac absenoldeb**; er enghraifft, gwirio bod y set ddata gofynnol yn caniatau i gofnod yn y data **ysgol** gael ei gyfuno â chofnod yn y data **cyflogau, AD ac absenoldeb.**

Mewn sefyllfa lle mae yna ymholiad neu wall o ganlyniad i'r dilysiadau lefel DEWi, bydd angen i staff systemau rheoli gwybodaeth, AD a chyflogres yr awdurdod lleol i gyd-weithio i wirio a datrys unrhyw broblemau.

Gan ystyried bod gan bob awdurdod lleol ddulliau gweithredu a strwythurau sefydliad gwahanol, bydd i'r awdurdodau lleol i gytuno prosesau eu hun. Noder gan mae cyfrifoldeb yr awdurdod lleol ydyw i wirio data statudol, mae'n bwysig bod prosesau 'addas i'w pwrpas' yn ei le ar ei chyfer. Mae'n bwysig eich bod mewn cysylltiad â'ch cydweithwyr i gytuno prosesau ar gyfer gwirio data ar gyfer y data **ysgol** a **chyflog, AD ac absenoldeb** nawr.

Cyflwyno data gan ysgolion sydd wedi'u heithrio:
Mae'r term **ysgolion sydd wedi'u heithrio** yn cyfeirio at ysgolion sydd wedi dewis i dynnu allan o gytundebau lefel gwasanaeth (CLG) gyda'i awdurdod lleol ar gyfer gwasanaethau AD a chyflogres. Ar gyfer ysgolion **sydd wedi'i heithrio** sy'n cyflwyno data **cyflog, AD ac absenoldeb**, bydd eich cyfrif DEWi yn dangos ymholiadau a gwallau ar gyfer y dilysiadau lefel DEWi rhwng y data **ysgol** a **chyflog, AD ac absenoldeb**.

Os ydych yn ysol **sydd wedi'i heithrio** ac yn ansicr os byddwch yn cyflwyno data **cyflog, AD ac absenoldeb** eich hun, cysylltwch eich awdurdod lleol i drafod.

Adnoddau a datblygiadau

Nodiadau Preifatrwydd – mae fersiwn ddrafft o'r Nodyn Preifatrwydd ar gyfer aelodau o'r gweithlu sydd i'w cynnwys yn y cyfrifiad wedi'i chael ei rhannu gyda chynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol am sylwadau. Rydym yn bwriadu cyhoeddi fersiwn terfynol o'r Nodyn Preifatrwydd ar ddechrau mis Mehefin.

Nodiadau Cwblhau Technegol – mae'r Nodiadau Cwblhau Technegol ("y Nodiadau") yn cael ei adolygu a chyfieithu ar hyn o bryd. Bydd y Nodiadau yn cael eu cyflwyno mewn dau rhan; un ar gyfer y data **ysgol** ac un arall ar gyfer y data **cyflog, AD ac absenoldeb.**

Digwyddiadau Ymgysylltu

Peilot CBGY – rydym dal yn edrych am awdurdodau lleol i wirfoddoli ar gyfer y peilot, i'w gynnal rhwng Gorffennaf a'r hydref. Yn ddelfrydol hoffwn gynnwys cynrychiolwyr AD, cyflogres a systemau rheoli gwybodaeth yn y peilot er mwyn profi bob elfen o'r cyfrifiad, yn cynnwys y data **ysgol** a **chyflog, AD ac absenoldeb** ynghyd â'r dilysiadau lefel DEWi. Os na fydd yn bosib cyflwyno data naill ai ar gyfer y data ysgol neu gyflog, AD ac absenoldeb fel rhan o'r peilot, byddai dal gwerth cysylltu â ni gan y gallwn beilot

OGL
© Crown copyright January 2019
WG36444

un rhan o'r cyfrifiad er mwyn helpu'r ysgolion ac awdurdodau lleol i gyfarwyddo ei hun gyda'r broses ac amlygu unrhyw broblemau i'w cywiro. Hynny yw, nid yw'n orfodol i gynnwys y ddau rhan ar gyfer eich awdurdod lleol os ni fydd y datblygiadau anghenrheidiol ar gyfer un o'r elfennau yn barod ar gyfer y peilot.

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cysylltwch â ni ar CBGY.SWAC@llyw.cymru neu IMS@llyw.cymru ynglyn â chymryd rhan yn y peilot.

Trafodaethau â chyflenwyr meddalwedd awdurdodau lleol – rydym wedi bod yn ymgysylltu â chyflenwyr meddalwedd awdurdodau lleol i drafod datblygiadau anghenrheidiol i awtomeiddio tynnu data ar gyfer **cyflog, AD ac absenoldeb** hyd ag y mae modd. Hyd yma, rydym wedi derbyn ymateb cymysg ar faint mae cyflenwyr meddalwedd wedi dechrau ar y gwaith, datblygu eu systemau neu roi cyfarwyddiadau i helpu awdurdodau lleol gyflwyno'r data. Er hynny, mae yna ychydig o ansicrwydd ynglyn â'r dull i gyflwyno data a chynnydd eraill. Rydym yn parhau trafodaethau gyda'r cyflenwyr meddalwedd. Er hynny, rydym yn argymell awdurdodau lleol, fel cwsmer y darparwyr gwasanaeth, i gysylltu â'u cynrychiolwyr cyflenwyr meddalwedd i drafod eu cynlluniau a phwysleisio pa mor bwysig yw hi i helpu cwsmeriaid i wneud y broses o gyflwyno data mor syml â phosib ar gyfer y casgliad statudol yma.

Cyfeiriad e-bost newydd ar gyfer CBGY – am unrhyw ymholiadau am y CBGY yn y dyfodol, gallwch ddefnyddio'r cyfeiriad penodol ar gyfer y CBGY i sicrhau bod eich e-bost yn cael ei brosesu ac yn cael ei ateb mor gyflym â phosib. Y cyfeiriad newydd yw mailto:CBGY.SWAC@llyw.cymru. Mae dal yn bosib i chi ddefnyddio mailto:IMS@llyw.cymru hefyd.

Beth nesaf

Os oes yna unrhyw eitemau hoffech weld mewn bwletinau yn y dyfodol gadewch i ni wybod at: IMS@llyw.cymru neu CBGY.SWAC@llyw.cymru.

Disgwylir cyhoeddi'r bwletin hwn bob mis wrth i ni agosáu at y cyfrifiad.

Copïau ychwanegol:
Gellir cyrchu'r ddogfen hon ar dudalennau Fforwm Datblygu Meddalwedd DEWi.

OGL
© Crown copyright January 2019
WG36444